# Hybu cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau unigolion

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi’r gofynion wrth hybu a diogelu hawliau unigolion. Mae hyn yn cynnwys grymuso unigolion i ymarfer eu hawliau a pharchu hawliau pobl eraill, gan hybu diwylliant sy'n seiliedig ar hawliau ac sy'n gwerthfawrogi ac yn parchu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer pob unigolyn. Mae hefyd yn mynd i’r afael â hawliau unigolion mewn perthynas â gwybodaeth amdanynt eu hunain a'r angen i roi hyder i unigolion y bydd eu hawliau'n cael eu cynnal yn y lleoliad gwaith.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. hybu hawliau unigolion i gael mynediad at wybodaeth amdanynt eu hunain mewn fformatau hygyrch, ac i wneud sylwadau a chwynion
2. sicrhau hawliau unigolion i gyfathrebu yn eu dewis iaith a dull
3. arddangos diwylliant o ymarfer gwrth-wahaniaethol sy'n hybu parch at urddas a phreifatrwydd unigolion
4. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i adnabod eu profiad bywyd, eu cefndir, eu gwerthoedd a'u credoau
5. grymuso unigolion i eirioli dros eu hawliau, eu gwerthoedd, eu diwylliant, eu daliadau ysbrydol a'u dewisiadau
6. grymuso unigolion i ymarfer eu hawliau a pharchu hawliau pobl eraill
7. sicrhau hawliau unigolion i wneud dewisiadau a phenderfyniadau gwybodus am eu bywydau a'u llesiant
8. sicrhau bod hawliau, gwerthoedd, credoau a dewisiadau unigolion wrth wraidd pob gweithred a phenderfyniad
9. hybu hawliau unigolion i reoli risgiau ac i gymryd risgiau cadarnhaol
10. cefnogi unigolion gyda chymhlethdod y penderfyniadau y mae angen iddynt eu gwneud i gydbwyso eu hawliau, eu gwerthoedd a'u dewisiadau â rhai pobl eraill
11. cefnogi unigolion i adnabod strategaethau ar gyfer ymdopi â rheoleiddio emosiynol wrth ddelio â heriau o ran cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau
12. modelu ymarfer gwrth-wahaniaethol sy'n annog eraill i weithio mewn ffyrdd sy'n hybu cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau
13. ymyrryd a gweithredu er mwyn mynd i'r afael â gwahaniaethu gan unigolion ac eraill
14. cwblhau'r cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau unigolion
15. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rôl a'ch cyfrifoldebau i hybu cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau unigolion

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. beth yw nodweddion gwarchodedig
2. y gwahanol fathau o wahaniaethu a'r ymddygiad a allai fod yn fynegiant o'r rhain
3. effeithiau posibl stigma, stereoteipio, rhagfarn a labelu ar unigolion
4. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol yn ystod heriau i gydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau
5. y rhagdybiaethau a'r gorthrwm sy'n amgylchynu gwahanol grwpiau a'r ffyrdd y mae hyn yn cael ei ymgorffori mewn cymdeithas a sefydliadau
6. sut mae sicrhau bod hawliau ac anghenion unigolion yn cael eu cynrychioli, gan ddefnyddio eiriolwyr, technoleg ddigidol a dehonglwyr
7. effaith niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar gydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau unigolion
8. effaith anghydraddoldebau cymdeithasol, economaidd ac iechyd
9. pwysigrwydd rhoi gofal tosturiol i gefnogi llesiant ysbrydol
10. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth hybu cydraddoldeb, amrywiaeth, chynhwysiant a hawliau unigolion
11. sut mae grymuso unigolion i ymarfer eu hawliau a pharchu hawliau pobl eraill
12. dylanwad diwylliant, cefndir ac ysbrydolrwydd ar gydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau unigolion
13. cymhlethdod y penderfyniadau y mae angen i unigolion eu gwneud i gydbwyso eu hawliau, eu gwerthoedd a'u dewisiadau â rhai pobl eraill
14. sut a ble i gael gafael ar wybodaeth a chefnogaeth i hybu cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau unigolion
15. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i hybu cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau unigolion
16. egwyddorion asesiadau risg, rheoli risgiau a chymryd risgiau cadarnhaol
17. y cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen i hybu cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau unigolion
18. damcaniaethau sy'n berthnasol i gydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau unigolion
19. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a'r canllawiau perthnasol ar gyfer hybu cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau unigolion
20. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth,

cynhwysiant a hawliau unigolion

21. sut mae ymateb i faterion a phryderon wrth hybu cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau unigolion
22. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i hybu cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau unigolion
23. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth hybu cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau unigolion, a sut i fynd i'r afael â hyn
24. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth hybu cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau unigolion

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

HSCCLD38

Hybu cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau unigolion

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD38 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Cydraddoldebau, Amrywiaeth, Cynhwysiant, Hawliau, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |